LLINELL GYMORTH THEATR – CWESTIYNAU CYFFREDINOL

THEATRE HELPLINE.org
0800 915 4617

Pwy all gysylltu â'r Llinell Gymorth Theatr?

Gall unrhyw un yn y diwydiant theatr ddefnyddio'r llinell gymorth. Gallwch fod yn gyflogedig, yn hunangyflogedig, yn fyfyriwr neu'n wirfoddolwr er enghraifft. Does dim rhaid i chi fod yn aelod o Theatr y DU, SOLT nac unrhyw gorff neu sefydliad aelodaeth arall i ddefnyddio'r Llinell Gymorth Theatr.

Pryd fydd y llinell gymorth ar agor?

Bydd y llinell gymorth ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, trwy gydol y flwyddyn.

A oes modd ffonio'r llinell gymorth yn rhad ac am ddim?

Oes, gellir ffonio'r rhif yn rhad ac am ddim oddi ar linell dir neu ffon symudol.

Pwy fydd ar ddiwedd y ffôn?

Mae Theatr y DU a SOLT yn gweithio gyda Connect Assist i ddarparu'r llinell gymorth. Mae Connect Assist wedi'i leoli yng Nghymru ac maent yn darparu llinell gymorth i nifer o elusennau'r DU, gan gynnwys "Film and Television Support" a "Help for Musicians".

Bydd yr unigolion ar ddiwedd y ffôn yn broffesiynol, yn gyfeillgar, yn hygyrch ac yn wybodus. Os na allant eich helpu, byddant yn eich cyfeirio at berson neu ffynhonnell a all.

Sut fydd y Llinell Gymorth Theatr yn cael ei ariannu?

Bydd y llinell cymorth yn cael ei rhedeg fel peilot am flwyddyn (gan Theatre Development Trust, SOLT, a UK Theatre). Trwy gydol y flwyddyn byddwn ni'n asesu'r defnydd a'r angen, yn casglu mewnwelediad a fydd yn helpu ni i benderfynu pa gymorth pellach sydd efallai ei angen, a deall sut gall y llinell gymorth cael ei ariannu dros y hirdymor.

Pa fath o bethau gallaf drafod wrth ffonio'r llinell gymorth?

Mae'r llinell gymorth yn adnodd i unrhyw un sy'n gweithio yn y theatr a'r diwydiant celfyddydau perfformio i'w helpu i ddelio ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Gall y person ar ddiwedd y ffôn gynnig cyngor ac arweiniad, a chyfeirio unigolion i berson neu ffynhonnell arall a allai eu helpu.

Er enghraifft, mae'n bosib y byddwch yn galw i holi ynglŷn â sut i wneud cais am gyllid, neu oherwydd eich bod yn mynd trwy brofedigaeth ac yn awyddus i wybod ble y gallwch gael cymorth emosiynol, neu oherwydd bod gennych chi fater cyflogaeth sydd yn eich poeni ac nad ydych yn siwr lle i droi am gymorth.

A fydd fy ngalwad yn gyfrinachol? Oes rhaid i mi roi fy enw neu fanylion personol eraill?

Bydd y llinell gymorth yn cael ei rhedeg fel peilot am flwyddyn (gyda chymorth yr Ymddiriedolaeth Datblygu Theatr, SOLT a Theatr y DU). Yn ystod y flwyddyn hynny byddwn yn asesu'r defnydd a'r angen er mwyn ein helpu i benderfynu pa gymorth pellach a allai fod yn angenrheidiol, a sut y gellid ariannu'r llinell gymorth yn y tymor hirach.

Bydd eich galwad yn gyfrinachol. Gallwch roi pa faint bynnag o fanylion ag yr ydych yn gyfforddus i'w rhoi.

Bydd y person ar y llinell gymorth yn gofyn i chi am rai fanylion sylfaenol megis y rhanbarth rydych chi ynddo, neu'r math o rôl sydd gennych yn y diwydiant theatr. Byddant yn bwydo data anhysbys yn ôl, megis y mathau o faterion y mae pobl yn eu galw i drafod, er mwyn helpu Theatr y DU a SOLT i barhau i wella'r gwasanaeth a deall yr hyn y gallai fod angen ei ddatblygu ar ddiwedd flwyddyn beilot y llinell gymorth.

Bydd pob galwad yn cael ei recordio at ddibenion cynnal ansawdd ac hyfforddi staff. Caiff pob recordiad ei ddileu ar ôl 3 mis.

Rwyf yn fyddar / ni allaf glywed yn dda iawn ar y ffôn / mae gennyf nam ar y lleferydd - a oes ffyrdd eraill y gallaf gysylltu â'r Llinell Gymorth?

Oes, gallwch e-bostio'r llinell gymorth ar y cyfeiriad e-bost canlynol: advice@theatrehelpline.org

Mae gennyf rywfaint o adborth ynglŷn â fy mhrofiad ar y llinell gymorth, i bwy y gallaf ei roi?
Yr ydym yn croesawu adborth ar eich profiad o ddefnyddio'r llinell gymorth. Gallwch roi adborth drwy e-bostio Theatr y DU a SOLT ar Enquiries@soltukt.co.uk neu at dîm Connect Assist ar Theatrehelpline@ourcrmservice.co.uk